

## Cerddor Ifanc Dyfed

Mae Cerddor Ifanc Dyfed yn broses a chystadleuaeth i offerynwyr ifanc o dan 19 oed. Mae'n agored i ieuenctid sy'n byw neu sy'n derbyn eu haddysg o fewn ffiniau siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.

Mae'r hyn rydym yn ei gynnig, yn ein tyb ni, yn unigryw ym Mhrydain. Caiff pob ymgeisydd ddsbarth meistr dan arweinyddiaeth cerddor amlwg a chyfeilydd profiadol, sydd hefyd ar gael i gyfeilio i'r rhai sydd ei angen. Mae'r dosbarth meistr yn lle rowndiau rhagarweiniol traddodiadol, ac yn fodd o ddewis a gwahodd pum offerynnwr i fynd ymlaen i rownd derfynol Cerddor Ifanc Dyfed.

---

## Ein Dosbarthiadau Meistr

Cynllunnir y dosbarth meistr fel modd o ddatblygu eich sgiliau perfformio a dyfnhau eich dealltwriaeth a'ch dehongliad o'r gerddoriaeth. **Ni fydd** y dosbarth meistr yn cynnig cyngor technegol, gan mai eich athro yw'r person gorau i wneud hyn. Mae'n ffordd wych o ddysgu, ac o gael eich ysbrydoli gan eraill wrth elwa o gyfoeth o wybodaeth y gallwch ei gymhwyso i bob agwedd o'ch chwarae.

Cynhelir y dosbarthiadau meistr eleni yn Neuadd y Dderwen, Rhosygilwen, ger Cilgerran ar **Ddydd Sadwrn Tachwedd 4<sup>ydd</sup>** a **Dydd Sul Tachwedd 5<sup>ed</sup> 2017**. Byddant dan arweiniad y cyfansoddwr, pianydd a'r arweinydd, **Andrew Wilson-Dickson**, a **Kevin Price**, Pennaeth Pres ac Offer Taro Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae gan Andrew a Kevin brofiad helaeth o weithio gydag ieuenctid, ac mae'r ddau yn gyfathrebwyr gwych.

Mae'r dosbarth meistr yn brofiad drws agored, ac efallai byddwch yn perfformio o flaen cynulleidfya fach, ond mewn awyrgylch hollol anffurfiol. Yn bennaf rydym am i chi fwynhau profiad fydd yn datblygu eich hyder wrth berfformio - ar gyfer cyngerdd, gwasanaeth ysgol, neu arholiad.

Dyma flas o'r adborth rydym wedi ei dderbyn gan ymgeiswyr:

*Roeddwn yn hoff iawn o fformat y dosbarth meistr - roedd yn llai brawychus, ac yn gwneud y gystadleuaeth yn fwy hygyrch. Hyd yn oed os nad oes gennyh siawns o gyrraedd y ffeinal, mae'n brofiad gwych, ac rydych yn elwa llawer iawn ohono.*

*Mae cael hyfforddiant gan gerddorion proffesiynol o hyd yn werthfawr ac yn fraint - ac yn arbennig pan mae'n rhad ac am ddim! Mae'r drefn hefyd yn caniatáu i'r beirniaid edrych ar allu cerddorol cyffredinol pob ymgeisydd, a'r ffordd y maent yn ymateb l gyngor a beirniadaeth. Mae hyn yn rhywbeth hynod bwysig i gerddorion, ac yn rhywbeth na all gael ei feirniadu mewn cystadleuaeth fwy traddodiadol o ran y drefn.*

I fod yn rhan o'r dosbarth meistr rhaid:

- Bod o dan 19 oed ar Fedi 1<sup>af</sup> 2018
- I chi fod yn byw neu'n cael eich addysg llawn amser o fewn ffiniau siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro.
- Bod o safon sy'n gyfatebol i Radd 5/6 neu uwch.

Gofynnir i chi baratoi un darn na fydd yn para mwy na pum munud. Gall hwn fod yn ddarn cyfan, neu'n symudiad/rhan o symudiad o waith hirach. Bydd y dosbarth meistr yn para rhyw 20-25 munud - yn dibynnu ar y nifer o ymgeiswyr.

I gymryd rhan, cwblhewch y ffurflen gais a'i e-bostio at [morris.c@ntlbusiness.com](mailto:morris.c@ntlbusiness.com), neu postiwch i'r cyfeiriad a nodir. Y dyddiad cau yw **Dydd Gwener Hydref 20<sup>fed</sup> 2017**.

## Cyfeiliant Piano

Bydd Andrew Wilson-Dickson ar gael i gyfeilio ar y dydd, ond os carech ddod a chyfeilydd eich hun gallwch wneud hyn.

## Costau

Mae'r dosbarth meistr yn rhad ac am ddim. Er hyn, dylech fod yn ymwybodol mai dim ond nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael, felly danfonwch eich cais yn gynnar.

## Yn dilyn y Dosbarth Meistr

Yn dilyn y dosbarth meistr bydd Andrew a Kevin yn dewis **pum** offerynnwr i fynd ymlaen i rownd derfynol Cerddor Ifanc Dyfed. Mae'r rhan hyn o'r broses yn gyfan gwbl ei dwylo nhw, ac mae eu penderfyniad yn derfynol.

## Rownd Derfynol Cerddor Ifanc Dyfed

Bydd y rownd derfynol yn gyngerdd cyhoeddus. Fe'i cynhelir yn Neuadd y Dderwen, Rhosygilwen dros benwythnos **Mawrth 24<sup>ain</sup>/25<sup>ain</sup> 2018** - y dyddiad a'r amser i'w gadarnhau.

Bydd pob offerynnwr yn paratoi rhaglen hyd at 15 munud o hyd. Bydd un cerddor proffesiynol ychwanegol yn ymuno ac Andrew a Kevin. Y panel o dri fydd yn gyfrifol am ddyfarnu gwobr Cerddor Ifanc Dyfed.

Os oes gennych gwestiwn, cysylltwch â'n swyddog gweinyddol Cathy Morris ar 029 2019 0176, neu drwy e-bost - [morris.c@ntlbusiness.com](mailto:morris.c@ntlbusiness.com).